



Denwch Sylw at eich Busnes
yn Rhondda Cynon Taf

Cyfleoedd i Noddi Achlysuron

Noddwch achlysur yn Rhondda Cynon Taf
i ddenu sylw miloedd o ddarpar gwsmeriaid



Cynnwys

- 01** **Achlysur: Ŵy-a-Sbri'r Pasg**
Lleoliad: Taith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda
Dyddiad: Ebrill
Presenoldeb ar gyfartaledd: 2,000 (achlysur dau ddiwrnod gyda thocynnau)
Mae'r achlysur wedi'i anelu at deuluoedd â phlant ifainc ac yn cynnwys Helfa Wyau Pasg, gweithgareddau crefft a llawer mwy. Mae tocynnau'n gwerthu'n gyflym ar gyfer yr achlysur yma.
- 03** **Achlysur: Gŵyl Aberdâr**
Lleoliad: Parc Aberdâr
Dyddiad: Mae'r achlysur yma fel arfer yn digwydd dros un diwrnod ym mis Mai. Yn 2022, bydd Gŵyl Aberdâr yn cael ei hymestyn i achlysur deuddydd i gynnwys dathliadau arbennig ar gyfer Jiwbilï Platinwm y Frenhines.
Presenoldeb ar gyfartaledd: 7,800
- 05** **Achlysur: Diwrnod y Lluoedd Arfog**
Lleoliad: Parc Coffa Ynysangharad, Pontypridd
Dyddiad: Mehefin
Presenoldeb ar gyfartaledd: 6,000
Mae'r achlysur yma'n dathlu ein Lluoedd Arfog ac yn cynnwys adloniant a gweithgareddau ar thema filwrol, a llwyfan cerddoriaeth fyw. Mae'r achlysur yn agor gyda gorymdaith filwrol ledled y Parc. Yn 2022 bydd Diwrnod y Lluoedd Arfog yn coffáu 40 mlynedd ers Rhyfel y Falklands, ac felly bydd yr achlysur yma'n fwy nag erioed o'r blaen.
- 07** **Achlysur: Picnic y Tedis**
Lleoliad: Parc Coffa Ynysangharad, Pontypridd
Dyddiad: Mehefin
Presenoldeb ar gyfartaledd: 6,000
Mae'r achlysur yma wedi'i anelu at y farchnad cyn-ysgol. Mae meithrinfeydd yn dod â bysiau'n llawn o blant a'u rhieni, gwarcheidwaid a rhieni cu. Mae'r plant yn mwynhau adloniant gan gynnwys ffair a pherfformiadau llwyfan tra bod yr oedolion yn ymweld â'r nifer o stondinau sy'n rhoi gwybod iddyn nhw am y gwasanaethau mae modd iddyn nhw gael mynediad atyn nhw trwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor, Gwasanaethau Hamdden a rhagor.
- 09** **Achlysur: Cegaid o Fwyd Cymru**
Lleoliad: Parc Coffa Ynysangharad, Pontypridd
Dyddiad: Awst
Presenoldeb ar gyfartaledd: 20,000 (achlysur deuddydd)
Ein prif achlysur yr Haf heb os yw gŵyl fwyd Cegaid o Fwyd Cymru. Caiff yr achlysur deuddydd ei gynnal ar benwythnos cyntaf mis Awst ac mae'n denu 20,000 o bobl sy'n dod i fwynhau amrywiaeth eang o fwyd ac adloniant am ddim.
- 11** **Achlysur: Rhialtwch Calan Gaeaf**
Lleoliad: Taith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda
Dyddiad: Hydref
Presenoldeb ar gyfartaledd: 3,000 (achlysur deuddydd)
Caiff Calan Gaeaf ei dathlu mewn steil yn Nhaith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda. Mae'r achlysur wedi'i anelu at deuluoedd â phlant ifainc, ac mae'n cynnwys Helfa Pwmpenni, gweithgareddau crefft a llawer mwy. Mae llawer o bobl yn edrych ymlaen yn fawr at yr achlysur deuddydd yma ac mae'n denu ymwelwyr o bob rhan o Riondda Cynon Taf a thu hwnt.
- 13** **Achlysur: Ogof Siôn Corn**
Lleoliad: Taith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda
Dyddiad: Rhagfyr
Presenoldeb ar gyfartaledd: 17,000 (achlysur dros gyfnod o fis)
Dyma brofiad hollol unigryw sy'n cael ei farchnata i ysgolion a theuluoedd. Pan mae'r tocynnau'n mynd ar werth, mae'r ymweliadau ar gyfer wythnos y Nadolig yn gwerthu allan o fewn oriau ac mae'r mis cyfan o ymweliadau â Siôn Corn yn gwerthu allan o fewn dyddiau.
- 15** **Achlysur: Achlysuron Nadolig Canol Trefi**
Lleoliad: Canol trefi amrywiol
Dyddiad: Rhagfyr
Presenoldeb cyfunol ar gyfartaledd: 15,000
Caiff y Nadolig ei dathlu gydag ogofâu Siôn Corn, reidiau ffair a hwyl yr ŵyl ym mhob un o'n canol trefi dros sawl penwythnos drwy gydol mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Mae gan bob achlysur ei ymgyrch farchnata ei hun ac mae wedi'i dargedu at bob canol tref a'r ardaloedd cyfagos.
- 17** **Achlysur: Rasys Nos Galan**
Lleoliad: Aberpennar
Dyddiad: Nos Galan
Presenoldeb ar gyfartaledd: 10,000
Dyma'ch cyfle i noddï achlysur sydd wedi bod yn un o uchafbwyntiau'r calendr chwaraeon ers dros 60 mlynedd ac i ddenu sylw darpar gwsmeriaid o bob rhan o'r DU – a thu hwnt - i'ch busnes!

Mae gan Riondda Cynon Taf raglen amrywiol o achlysuron sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ac sy'n cael eu mynychu gan filoedd o drigolion ac ymwelwyr.

Mae ein hachlysuron yn aml am ddim i'w mynychu a chânt eu cynnal ledled Rhondda Cynon Taf mewn parciau, canol trefi a lleoliadau, megis Taith Pyllau Glo Cymru sy wedi ennill gwobrau. Mae hyn yn ein galluogi nid yn unig i ddarparu adloniant o safon uchel i drigolion ac ymwelwyr, ond hefyd i arddangos Rhondda Cynon Taf yn gyrcfan siopa a chyrchfan i ymwelwyr.

Mae ein hachlysuron yn amrywio o wyliau bwyd ar raddfa fawr dros benwythnos i achlysuron ar thema'r Nadolig yng nghanol ein trefi.

Mae gan bob achlysur gynllun marchnata bwrpasol i hyrwyddo'r achlysur a sicrhau bod y nifer fwyaf posib yn mynychu, a hefyd i hyrwyddo noddwyr yr achlysur.



A ninnau'n brif drefnydd achlysuron yn Rhondda Cynon Taf, mae gyda ni niferoedd mawr o ddilynwyr ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol 'Be sy 'mlaen RhCT', ac mae modd inni hefyd fanteisio ar sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ar gyfer datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau am achlysuron mawr.

Yn 2019 cafodd un neges Facebook, a oedd yn cyhoeddi bod tocynnau ar gyfer ein hachlysur poblogaidd Ogof Siôn Corn yn mynd ar werth, ei weld gan 9,298 o bobl!

Mae'n hawdd gweld sut y gall noddi un o'n hachlysuron gefnogi eich amcanion busnes: codi eich proffil, dod â chwsmeriaid newydd, a sicrhau bod y miloedd o bobl sy'n gweld deunydd marchnata'r achlysuron neu sy'n mynd i'r achlysuron yn sylwi ar eich brand.

Mae'r llyfryn yma'n cyflwyno ein pecynnau nawdd. Bydden ni'n falch iawn i siarad â chi hefyd – cysylltwch os oes diddordeb gyda chi mewn dysgu rhagor.

Gwybodaeth Pecynnau Nawdd

Nodwch:

Bydd Carfan Marchnata, Dylunio ac Achlysuron Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dylunio, argraffu a dosbarthu'r holl ddeunydd ar eich rhan yn rhan o'ch nawdd.

E-bost: achlysuron@rctcbc.gov.uk



Ŵy-a-Sbri'r Pasg

Lleoliad:
Taith Pyllau Glo Cymru,
Parc Treftadaeth Cwm Rhondda

Dyddiad: Ebrill
Presenoldeb ar gyfartaledd: 2,000



Mae ein tymor o achlysuron mawr yn dechrau ym mis Ebrill gydag achlysur poblogaidd y Pasg yn un o'n prif atyniadau twristiaeth – Taith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda.

Mae'r achlysur wedi'i anelu at deuluoedd â phlant ifainc ac yn cynnwys Helfa Wyau Pasg, gweithgareddau crefft a llawer mwy. Mae tocynnau'n gwerthu'n gyflym ar gyfer yr achlysur yma.

Mae ymwelwyr yn dod o bob rhan o Ronda Cynon Taf a thu hwnt.

Ar gyfartaledd, mae 2,000 o ymwelwyr yn mynd i achlysur Ŵy-a-Sbri'r Pasg ac mae llawer mwy yn clywed am ein hachlysuron drwy'r cyfryngau cymdeithasol a deunydd marchnata.

Pecyn Aur

Bydd datganiad i'r wasg a llun a fydd yn cynnwys eich cwmni yn cael eu cyhoeddi ar hafan gwefannau Taith Pyllau Glo Cymru a Chyngor RhCT a'u hanfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Taith Pyllau Glo Cymru yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd logo eich cwmni yn cael ei argraffu ar bob cerdyn Helfa Wyau Pasg sy'n cael eu rhoi i bob un sy'n Hela'r Wyau Pasg.

Bydd eich logo'n cael ei gynnwys ar bedair baner fawr i hyrwyddo'r achlysur a fydd yn cael eu gosod y tu allan i Daith Pyllau Glo Cymru ac ym Mhontypridd a Threhafod.

Bydd eich enw/logo/disgrifiad yn cael eu cynnwys ar dudalen achlysuron gwefan Taith Pyllau Glo Cymru.

Bydd o leiaf 15 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Taith Pyllau Glo Cymru yn diolch i chi yn ôl eich enw.

Bydd eich enw/logo/slogan a disgrifiad byr yn cael eu dangos ar y sgrin yn Nhaith Pyllau Glo Cymru drwy gydol yr achlysur.

Bydd eich enw/logo/slogan yn cael eu dangos ar bosteri A4 sy'n cael eu harddangos yn Nhaith Pyllau Glo Cymru drwy gydol yr achlysur.

Pris: £1,000 + TAW

Pecyn Arian

Bydd datganiad i'r wasg sy'n cydnabod eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar hafan gwefannau Taith Pyllau Glo Cymru a Chyngor RhCT ac yn cael ei anfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT a Thaith Pyllau Glo Cymru yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 10 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Taith Pyllau Glo Cymru yn cydnabod eich nawdd.

Bydd logo a disgrifiad eich cwmni yn cael eu cynnwys ar dudalen achlysuron gwefan Taith Pyllau Glo Cymru.

Pris: £400 + TAW



Gŵyl Aberdâr

Lleoliad:
Parc Aberdâr

Dyddiad: Mehefin
Presenoldeb ar gyfartaledd: 7,800

Gŵyl
Aberdâr
Festival



Yn 2019, denodd yr achlysur undydd i'r teulu yma dorf o 7,800!

Mae pobl o bob oed yn tyrru i barc hardd Aberdâr i fwynhau perfformiadau llwyfan am ddim, llawer o adloniant i'r plant, y ffair fawr a stondinau bwyd.

Yn 2022, bydd yr achlysur yn digwydd dros ddeuddydd i gynnwys dathliadau ar gyfer Jiwbilî Platinwm y Frenhines.

Pecyn Aur

Bydd safle arddangos sy'n mesur 3 metr wrth 3 metr ar gael i chi drwy gydol yr achlysur.

Bydd datganiad i'r wasg a llun a fydd yn cynnwys eich cwmni yn cael eu cyhoeddi ar hafan gwefannau Gŵyl Aberdâr, Be sy 'mlaen RhCT a Chyngor RhCT a'u hanfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 15 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod eich nawdd.

Bydd eich enw/logo yn cael eu cynnwys ar wefan Gŵyl Aberdâr.

Bydd 500 o daflenni A5 i hysbysebu eich busnes yn cael eu dylunio, eu hargraffu a'u dosbarthu gan ein staff ar y safle yn ystod yr achlysur.

Bydd eich enw/logo yn cael ei gynnwys ar bosteri A4 a fydd yn cael eu dosbarthu i fusnesau a siopau canol tref Aberdâr i hyrwyddo'r achlysur.

Bydd enw/logo eich cwmni'n cael ei gynnwys ar o leiaf 3 baner a fydd yn cael eu gosod mewn gwahanol leoliadau ym Mharc Aberdâr drwy gydol yr achlysur.

Bydd enw a logo eich cwmni yn ymddangos ar o leiaf 6 baner yn hysbysebu'r achlysur a fydd yn cael eu gosod mewn lleoliadau ledled Rhondda Cynon Taf yn yr wythnosau cyn yr achlysur.

Bydd eich enw/logo yn cael ei arddangos ar faner mawr iawn i hysbysebu'r achlysur ger Parc Aberdâr yn yr wythnosau cyn yr achlysur.

Pris: £2,500 + TAW

Pecyn Arian

Bydd datganiad i'r wasg sy'n cydnabod eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar hafan gwefannau Gŵyl Aberdâr a Chyngor RhCT a'i anfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 10 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen yn cydnabod eich nawdd.

Bydd eich enw/logo a'ch disgrifiad yn cael eu cynnwys ar wefan yr achlysur.

Bydd eich logo a'ch slogan yn cael eu cynnwys ar ddwy faner a fydd yn cael eu harddangos ym Mharc Aberdâr yn ystod yr achlysur.

Pris: £1,000 + TAW



Diwrnod y Lluoedd Arfog

Lleoliad:
Parc Coffa Ynysangharad,
Pontypridd

Dyddiad: Mehefin
Presenoldeb ar gyfartaledd: 6,000



Mae'r achlysur undydd yma'n dathlu ein Lluoedd Arfog ac yn cynnwys adloniant ar thema filwrol, gweithgareddau, ffair fach a llwyfan cerddoriaeth fyw.

Eleni bydd yr achlysur hefyd yn coffáu 40 mlynedd ers Rhyfel y Falklands.



Pecyn Aur

Bydd datganiad i'r wasg a llun a fydd yn cynnwys eich cwmni yn cael eu cyhoeddi ar hafan gwefannau Be sy 'mlaen RhCT a Chyngor RhCT a'u hanfon at y cyfryngau lleol.

Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 15 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen yn cydnabod eich nawdd.

Bydd safle arddangos sy'n mesur 3 metr wrth 3 metr ar gael i chi drwy gydol yr achlysur.

Bydd enw/logo/slogan eich cwmni'n cael eu cynnwys ar o leiaf 3 baner i hyrwyddo'r achlysur a fydd yn cael eu gosod mewn gwahanol leoliadau ledled Rhondda Cynon Taf.

Bydd eich enw/logo/slogan yn cael eu cynnwys ar bosteri A4 a fydd yn cael eu dosbarthu i fusnesau a siopau canol tref Pontypridd i hyrwyddo'r achlysur. Bydd 500 o daflenni A5 i hyrwyddo eich cwmni yn cael eu dylunio, eu hargraffu a'u cyhoeddi, i'w dosbarthu gan staff drwy gydol y dydd.

Bydd 500 o daflenni A5 i hyrwyddo eich cwmni yn cael eu dylunio, eu hargraffu a'u cyhoeddi, i'w dosbarthu gan staff drwy gydol y dydd.

Pris: £2,000 + TAW

Pecyn Arian

Bydd datganiad i'r wasg sy'n cydnabod eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar hafan gwefannau Be sy 'mlaen RhCT a Chyngor RhCT a'i anfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 10 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen yn cydnabod eich nawdd.

Bydd eich enw/logo/disgrifiad yn cael eu cynnwys ar wefan Be sy 'mlaen RhCT.

Bydd eich enw/logo/slogan yn cael eu cynnwys ar ddwy faner fawr i hysbysebu'r achlysur a fydd yn cael eu gosod ym Mharc Coffa Ynysangharad, Pontypridd.

Pris: £600 + TAW



Picnic y Tedis

Lleoliad:
Parc Coffa Ynysangharad,
Pontypridd

Dyddiad: Mehefin
Presenoldeb ar gyfartaledd: 6,000



Mae'r achlysur undydd yma wedi'i anelu at y farchnad cyn-ysgol.

Mae meithrinfeydd yn dod â bysiau'n llawn o blant a'u rhieni neu warcheidwaid. Mae croeso i rieni cu yn yr achlysur yma hefyd. Mae'r plant yn mwynhau adloniant gan gynnwys ffair a pherfformiadau llwyfan tra bod yr oedolion yn ymweld â'r nifer o stondinau sy'n rhoi gwybod iddyn nhw am y gwasanaethau mae modd iddyn nhw gael mynediad atyn nhw trwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor, Gwasanaethau Hamdden a rhagor.

Pecyn Aur

Bydd datganiad i'r wasg a llun yn cynnwys eich cwmni yn cael eu cyhoeddi ar hafan gwefannau Be sy 'mlaen RhCT a Chyngor RhCT a'u hanfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd safle arddangos sy'n mesur 3 metr wrth 3 metr ar gael i chi drwy gydol yr achlysur.

Bydd o leiaf 15 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod eich nawdd.

Bydd eich enw/logo/slogan yn cael eu cynnwys ar faneri mawr i hyrwyddo'r achlysur a fydd yn cael eu gosod ledled Rhondda Cynon Taf.

Bydd eich enw/logo/slogan yn cael eu cynnwys ar bosteri A4 a fydd yn cael eu dosbarthu i fusnesau a siopau canol tref Pontypridd i hyrwyddo'r achlysur.

Bydd 500 o daflenni A5 i hyrwyddo eich cwmni yn cael eu dylunio, eu hargraffu a'u cyhoeddi, i'w dosbarthu gan staff drwy gydol y dydd.

Pris: £2,000 + TAW

Pecyn Arian

Bydd datganiad i'r wasg sy'n cydnabod eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar hafan gwefannau Be sy 'mlaen RhCT a Chyngor RhCT ac yn cael ei anfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 10 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod nawdd.

Bydd eich enw/logo/slogan yn cael eu cynnwys ar ddwy faner gwybodaeth fawr ar gyfer yr achlysur a fydd yn cael eu harddangos ym Mharc Coffa Ynysangharad.

Pris: £600 + TAW



Cegaid o Fwyd Cymru

Lleoliad:
Parc Coffa Ynysangharad,
Pontypridd

Dyddiad: Awst
Presenoldeb ar gyfartaledd: 20,000



Ein prif achlysur yn yr Haf, heb os, yw'r ŵyl fwyd, Cegaid o Fwyd Cymru.

Caiiff yr achlysur ei gynnal dros ddeuddydd ar benwythnos cyntaf mis Awst ac mae'n denu 20,000 o bobl sy'n dod i fwynhau amrywiaeth eang o fwyd ac adloniant am ddim.

I weld lluniau o'r achlysur, ewch i
www.cegaidofwydcymru.co.uk

Pecyn Aur

Bydd datganiad i'r wasg a llun yn cynnwys eich cwmni yn cael eu cyhoeddi ar hafan gwefannau Cegaid o Fwyd Cymru a Chyngor RhCT a'u hanfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd maes arddangos sy'n mesur 3 metr wrth 3 metr ar gael i chi drwy gydol yr achlysur.

Bydd o leiaf 20 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod eich nawdd.

Bydd 2,000 o daflenni A5 i hyrwyddo eich cwmni yn cael eu dylunio, eu hargraffu a'u cyhoeddi, i'w dosbarthu gan staff drwy gydol y penwythnos.

Bydd y posteri A4 sy'n cael eu dosbarthu i siopau a busnesau canol tref Pontypridd i hysbysebu'r achlysur yn dangos eich enw/logo/slogan.

Bydd eich enw/logo/slogan yn ymddangos ar faneri mawr sy'n cael eu harddangos ym Mharc Coffa Ynysangharad ar gyfer y penwythnos.

Bydd eich enw/logo/slogan yn cael ei gynnwys ar faner mawr iawn a fydd yn cael ei harddangos ym mhrif fynedfa'r achlysur, sy'n cael ei gweld gan nifer sylweddol o

Bydd eich logo yn cael ei ddangos ar bosteri maint A0 sy'n cynnwys amserlen yr achlysur a fydd yn cael eu harddangos yn yr achlysur.

Bydd eich nawdd yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd drwy gydol y penwythnos o ardal yr achlysur.

Pris: £3,500 + TAW

Pecyn Arian

Bydd datganiad i'r wasg sy'n cydnabod eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar hafan gwefannau Cegaid o Fwyd Cymru a Chyngor RhCT a'i anfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 10 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cyhoeddi'ch nawdd.

Bydd eich enw/logo/slogan a disgrifiad eich cwmni yn cael ei gynnwys ar wefan Cegaid o Fwyd Cymru.

Bydd eich logo a'ch slogan i'w gweld ar ddwy faner fawr sy'n cael eu harddangos ym Mharc Coffa Ynysangharad yn ystod yr achlysur.

Pris: £1,000 + TAW



Rhialtwch Calan Gaeaf

Lleoliad:

Taith Pyllau Glo Cymru,
Parc Treftadaeth Cwm Rhondda

Dyddiad: Hydref

Presenoldeb ar gyfartaledd: 3,000



Caiff Calan Gaeaf ei dathlu mewn steil yn
Nhaith Pyllau Glo Cymru ym Mharc
Treftadaeth Cwm Rhondda.

Mae'r achlysur wedi'i anelu at deuluoedd â
phlant ifainc, ac mae'n cynnwys Helfa
Pwmpenni, gweithgareddau crefft a llawer
mwy. Mae llawer o bobl yn edrych ymlaen yn
fawr at yr achlysur deuddydd yma ac mae'n
denu ymwelwyr o bob rhan o Ronda Cynon
Taf a thu hwnt.

Ar gyfartaledd, mae ffigurau ymwelwyr dros y
ddau ddiwrnod yn cyrraedd 3,000.

Pecyn Aur

Bydd datganiad i'r wasg a llun a fydd yn cynnwys eich cwmni yn cael eu cyhoeddi ar
hafan gwefannau Taith Pyllau Glo Cymru a Chyngor RhCT a'u hanfon at y cyfryngau
lleol. Bydd negeseuon cyfryngau cymdeithasol o gyfrifon Be sy 'mlaen RhCT a Thaith
Pyllau Glo Cymru yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 15 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Taith Pyllau Glo Cymru a
Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod eich nawdd.

Bydd logo eich cwmni yn cael ei argraffu ar bob cerdyn Helfa Pwmpenni sy'n cael eu
rhoi i bob un sy'n hela'r pwmpenni.

Bydd eich enw/logo'n cael ei gynnwys ar bedair baner fawr i hyrwyddo'r achlysur a
fydd yn cael eu gosod ar y prif ffyrdd prysur y tu allan i Daith Pyllau Glo Cymru ac ym
Mhontypridd a Threhafod.

Bydd eich enw/logo a disgrifiad eich busnes yn cael eu cynnwys ar wefan achlysuron
Taith Pyllau Glo Cymru a gwefan Be sy 'mlaen RhCT.

Bydd eich enw/logo/slogan i'w gweld ar sgriniau sy'n cael eu harddangos yn Nhaith
Pyllau Glo Cymru drwy gydol yr achlysur.

Bydd eich enw/logo/slogan yn cael eu cynnwys ar bosteri A4 sy'n cael eu
harddangos ledled Taith Pyllau Glo Cymru drwy gydol yr achlysur.

Pris: £2,000 + TAW

Pecyn Arian

Bydd datganiad i'r wasg sy'n cydnabod eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar hafan
gwefannau Taith Pyllau Glo Cymru a Chyngor RhCT a'i anfon at y cyfryngau lleol.
Bydd negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Taith Pyllau Glo Cymru a Be sy
'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd enw/logo a disgrifiad eich cwmni yn cael eu cynnwys ar wefan achlysuron Taith
Pyllau Glo Cymru.

Bydd o leiaf 10 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Taith Pyllau Glo Cymru yn
cyhoeddi nawdd.

Pris: £700 + TAW



Ogof Siôn Corn

Lleoliad:

Taith Pyllau Glo Cymru,
Parc Treftadaeth Cwm Rhondda

Dyddiad: Tachwedd – Rhagfyr

Presenoldeb ar gyfartaledd: 16,000



Mae'r Nadolig yn dechrau'n swyddogol pan fydd Siôn Corn yn gosod ei ogof danddaearol yn Nhaith Pyllau Glo Cymru.

Dyma brofiad Nadolig hollol unigryw sy'n cael ei farchnata i ysgolion a theuluoedd.

Pan mae'r tocynnau'n mynd ar werth, mae'r ymweliadau ar gyfer wythnos y Nadolig yn gwerthu allan o fewn oriau ac mae'r mis cyfan o ymweliadau â Siôn Corn yn gwerthu allan o fewn dyddiau.

Ar gyfartaledd mae 16,000 o bobl yn ymweld â Siôn Corn yn Nhaith Pyllau Glo Cymru ac mae ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu gweld gan filoedd yn rhagor.

Pecyn Aur

Bydd datganiad i'r wasg a llun a fydd yn cynnwys eich cwmni yn cael eu cyhoeddi ar hafan gwefannau Taith Pyllau Glo Cymru a Chyngor RhCT a'u hanfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT a Thaith Pyllau Glo Cymru yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd eich enw/logo/disgrifiad eich busnes a dolen i'ch gwefan yn cael eu cynnwys ar wefan achlysuron Taith Pyllau Glo Cymru.

Bydd o leiaf 15 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Taith Pyllau Glo Cymru a Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod eich nawdd.

Bydd eich enw/logo yn cael ei gynnwys ar faneri mawr i hyrwyddo'r achlysur a fydd yn cael eu gosod ar y brif ffordd ger Taith Pyllau Glo Cymru ac ym Mhontypridd.

Bydd eich enw/logo/slogan i'w gweld ar sgrin sy'n cael ei harddangos yn Nhaith Pyllau Glo Cymru drwy gydol yr achlysur.

Bydd eich enw/logo/slogan yn cael eu cynnwys ar bosteri A4 sy'n cael eu harddangos ledled Taith Pyllau Glo Cymru drwy gydol yr achlysur.

Pris: £4,000 + TAW

Pecyn Arian

Bydd datganiad i'r wasg sy'n cydnabod eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar hafan gwefannau Taith Pyllau Glo Cymru a Chyngor RhCT a'i anfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Taith Pyllau Glo Cymru a Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd eich enw/logo/disgrifiad eich busnes a dolen i'ch gwefan yn cael eu cyhoeddi ar wefan achlysuron Taith Pyllau Glo Cymru.

Bydd o leiaf 10 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Taith Pyllau Glo Cymru a Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod eich nawdd.

Pris: £1,000 + TAW



Achlysuron y Nadolig yn Rhondda Cynon Taf

Lleoliad:
Canol trefi

Dyddiad: Tachwedd – Rhagfyr
Presenoldeb cyfunol ar gyfartaledd:
15,000



Caiff y Nadolig ei dathlu gydag ogofau Siôn Corn a reidiau ffair ym mhob un o'n canol trefi dros sawl penwythnos trwy gydol mis Tachwedd a mis Rhagfyr bob blwyddyn.

Mae rhai achlysuron y Nadolig yn cael eu harwain gan bartneriaethau a sefydliadau canol trefi. Mae gan bob achlysur y Nadolig sy'n cael ei arwain gan Garfan Achlysuron Cyngor RhCT ei ymgyrch farchnata ei hun ac mae wedi'i dargedu at bob canol tref a'r ardaloedd cyfagos.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae dathliadau'r Nadolig wedi'u cynnal yn nhrefi Porth, Treorci, Pontypridd, Tonypandy, Llantrisant, Aberdâr, Aberpennar a Glynrhedynog – rydyn ni'n edrych ymlaen at 2022 yn barod!

Pecyn Aur

Bydd datganiad i'r wasg a llun a fydd yn cynnwys eich cwmni yn cael eu cyhoeddi ar hafan gwefannau Be sy 'mlaen RhCT a Chyngor RhCT a'u hanfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon o gyfrif cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 15 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cyhoeddi eich nawdd.

Bydd eich enw/logo yn ymddangos ar holl bosteri Be sy 'mlaen RhCT sy'n cael eu dosbarthu i fusnesau a sefydliadau canol tref i hyrwyddo'r achlysuron.

Pris: £3,000 + TAW

Pecyn Arian

Bydd datganiad i'r wasg sy'n cydnabod eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar hafan gwefannau Be sy 'mlaen RhCT a Chyngor RhCT a'i anfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 10 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod eich nawdd.

Bydd eich enw/logo yn ymddangos ar holl bosteri Be sy 'mlaen RhCT sy'n cael eu dosbarthu i fusnesau a sefydliadau canol tref i hyrwyddo'r achlysuron.

Pris: £1,500 + TAW



Rasys Nos Galan



Lleoliad:
Aberpennar

Dyddiad: Nos Galan
Presenoldeb ar gyfartaledd: 10,000



Mae Rasys Nos Galan yn cynnig cyfle noddï unigryw. Mae lleoedd ar gyfer y ras yn boblogaidd gan bobl leol, ac mae rhedwyr hefyd yn teithio o bob cwr o'r byd i gymryd rhan yn ras ffordd olaf calendr chwaraeon y flwyddyn.

Yn ogystal â'r 1,900 o redwyr, mae miloedd yn rhagor o bobl yn sefyll ar hyd strydoedd Aberpennar i wylïo'r achlysur Nos Galan yma. Mae lleoedd rasio yn cael eu rhyddhau fesul cam i geisio ateb y galw ond serch hynny, mae lleoedd yn dal i gael eu bachu o fewn munudau i'w rhyddhau.

Dyma'ch cyfle i noddï achlysur sydd wedi bod yn un o uchafbwyntïau'r calendr chwaraeon ers dros 60 mlynedd ac i ddenu sylw darpar gwsmerïaid o bob rhan o'r DU – a thu hwnt - i'ch busnes!

Pecyn Aur

Bydd datganiad i'r wasg a llun a fydd yn cynnwys eich cwmni yn cael eu cyhoeddi ar hafan gwefannau Nos Galan a Chyngor Rhondda Cynon Taf a'u hanfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Be sy 'mlaen RhCT a Nos Galan yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd o leiaf 20 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Nos Galan a Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod eich nawdd.

Bydd eich enw/logo a disgrifiad eich busnes yn cael eu cynnwys ar dudalen achlysuron gwefan Nos Galan.

Bydd gyda chi hysbyseb tudalen lawn yn rhaglen goffa maint A5 Nos Galan, a fydd yn cael ei dosbarthu i holl fusnesau Aberdâr ac Aberpennar tua dau fis cyn yr achlysur. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn copi yn y pecyn rasio sy'n cael ei anfon i'w cartrefi a bydd yn cael ei dosbarthu i'r sawl sy'n gwylïo ar y noson. Mae'r rhaglen yn cael ei hystyried yn eitem i'w chasglu fel atgof, ac mae 5,000 o gopiâu yn cael eu cynhyrchu.

Bydd taflen A5 sy'n hyrwyddo eich busnes yn cael ei chynnwys ym mhob pecyn rasio sy'n cael eu hanfon at y sawl sy'n cymryd rhan.

Bydd eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar adegau amrywiol drwy gydol y nos gan sylwebydd y ras.

Pris: £1,500 + TAW

Pecyn Arian

Bydd datganiad i'r wasg sy'n cydnabod eich nawdd yn cael ei gyhoeddi ar hafan gwefannau Nos Galan a Chyngor Rhondda Cynon Taf a'i anfon at y cyfryngau lleol. Bydd negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Nos Galan a Be sy 'mlaen RhCT yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg ac yn ei hyrwyddo.

Bydd eich enw/logo yn cael ei gynnwys ar wefan Nos Galan.

Bydd o leiaf 10 neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Nos Galan a Be sy 'mlaen RhCT yn cydnabod eich nawdd.

Bydd gyda chi hysbyseb hanner tudalen yn rhaglen goffa maint A5 Nos Galan, a fydd yn cael ei dosbarthu i holl fusnesau Aberdâr ac Aberpennar tua dau fis cyn yr achlysur. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn copi yn y pecyn rasio sy'n cael ei anfon i'w cartrefi a bydd yn cael ei dosbarthu i'r sawl sy'n gwylïo ar y noson. Mae'r rhaglen yn cael ei hystyried yn eitem i'w chasglu fel atgof, ac mae 5,000 o gopiâu yn cael eu cynhyrchu.

Pris: £1,000 + TAW



Mae noddi achlysur yn Rhondda Cynon Taf yn ffordd wych o
hyrwyddo eich busnes a chyrraedd eich cynulleidfa darged.

Os hoffech chi drafod unrhyw un o'r cyfleoedd noddi, ffoniwch:
01443 424123 neu e-bostiwch: **achlysuron@rctcbc.gov.uk**